Gweithgaredd 1: Gwers yn Affganistan

Amcanion dysgu • Deall sut deimlad yw cael system addysg sydd wedi torri. • Cymharu a chyferbynnu ysgolion yn Affganistan ag ysgolion yn y DU. • Awgrymu blaenoriaethau ar gyfer diwygio addysg yn Affganistan.
Adnoddau • Lluniau o Affganistan (gweler isod) • Fideo: Nazifa's Story (3 munud 51 eiliad) • Fideo: Education for Girls: "Our Future Depends on It" (2 funud 33 eiliad) • Siart troi neu bapur A3 a phennau marcio
Yr amser sy'n ofynnol: 60 munud

Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn i athrawon efelychu'r amgylchedd dysgu a wynebir bob dydd gan nifer o fyfyrwyr yn Affganistan.

Dyma rai o'r heriau a wynebir gan fyfyrwyr yn Affganistan. Mae'r amodau yn Kabul a dinasoedd mawr eraill yn well na'r rheiny a restrir isod, ond gall yr amodau mewn ardaloedd gwledig fod yn waeth o lawer. Er enghraifft, dim ond 8% o'r ysgolion yn Balkh sydd ag adeilad.

- Yn aml mae'r plant yn gorfod cerdded pellteroedd hir i'r ysgol – mae siwrneiau o hyd at dair awr bob ffordd yn gyffredin, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mae plant yn aml yn cael eu bwlio neu eu haflonyddu gan oedolion ar y ffordd i'r ysgol, neu oddi yno. Mae hyn yn llawer gwaeth i ferched na bechgyn.
- Mae trais a gwrthdaro yn effeithio ar sawl rhan o'r wlad. Mae hyn yn cau ysgolion ac yn amharu ar addysg.
- Er bod mwy o ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu, mae llawer o ysgolion yn dal i fod heb adeilad.
- Mae llawer o'r athrawon heb gymhwyso. Mae'r gwersi yn aml o ansawdd gwael.
- Nid oes gan lawer o ysgolion doiledau, cyfleusterau golchi, gwerslyfrau digonol, desgiau, cadeiriau, papur ysgrifennu, pennau, ac ati.

Cyflwyniad (10 munud)

- Gan y bydd y wers hon yn un anarferol i'r bobl ifanc, rhowch gyd-destun iddi trwy ddangos y lluniau (gweler isod) a/neu'r fideos (dolenni uchod) iddynt yn gyntaf, er mwyn darlunio bywyd yn Affganistan.

Profiad o wers yn Affganistan (25 munud)

- Addysgwch ran o wers arferol o dan gynifer o'r amodau hyn â phosibl. Bydd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, a dylai'r bobl ifanc fod yn barod i fyfyrio ar eu profiad. Os nad yw'n bosibl efelychu'r amodau yn Affganistan yn uniongyrchol, gellid gofyn i'r bobl ifanc eu dychmygu.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

  - Anelwch at addysgu'r wers, neu ran ohoni, yn yr awyr agored. Gallai o dan goeden fod yn lleoliad addas. Os yw'n boeth iawn neu'n oer iawn, mae'r myfyrwyr yn Affganistan yn ymdopi cystal ag y gallant.
  - Addysgwch heb ddesgiau a chadeiriau. Dylai'r bobl ifanc eistedd ar y llawr neu ar y ddaear. Mae'n debyg y byddai'n llychlyd yn Affganistan.
  - Addysgwch heb werslyfrau, llyfrau ymarfer, pennau, pensiliau nac offer eraill yr ysgol. Gallwch ddefnyddio bwrdd dU a llechi os ydynt ar gael.
  - Mae'r dosbarth yn debygol o fod yn fawr, felly ystyriwch uno dau neu dri o ddosbarthiadau a'u haddysgu gyda'i gilydd.
  - Byddwch yn defnyddio arddull addysgu "sialc a siarad" yn bennaf. Gofynnwch i'r bobl ifanc ailadrodd ac adrodd atebion. Dewiswch un neu ddau o'r bobl ifanc i weithio allan cyfrifiadau, neu i ysgrifennu atebion ar y bwrdd du.
  - Nid yw llawer o ferched yn cael y cyfle i fynychu'r ysgol. Gallai rhai o'r merched gael eu heithrio o'r wers, a chael tasgau i'w gwneud yn lle hynny.
  - Bydd y bobl ifanc yn llwglyd, yn sychedig, ac yn flinedig ar ôl cerdded mor bell i'r ysgol, a bydd angen iddynt ddefnyddio'r tŷ bach. Bydd nifer o'r merched yn y wers yn cael mislif, ac ni fydd unrhyw ystafell ymolchi.
- Ar ôl i chi addysgu rhywfaint o gynnwys y cwricwlwm, dewch â'r bobl ifanc allan o'u rôl ac yn ôl i'w lleoliad ystafell ddosbarth arferol.

Myfyrio (20 munud)

- Gofynnwch i'r bobl ifanc weithio mewn grwpiau a myfyrio ar eu profiad o wers yn Affganistan. Dylai'r grwpiau ddechrau trwy drafod y cwestiynau isod. Os bydd y grwpiau yn adrodd yn ôl i'r dosbarth am eu trafodaeth, dylai ysgrifennydd nodi eu meddyliau ar siart troi neu bapur A3.
  - Beth oedd y prif wahaniaethau rhwng y wers Affgan a gwers arferol y bobl ifanc?
  - A oedd hi'n anodd dysgu'n effeithiol yn y wers Affgan? Pam?
  - A ydych yn credu yr oedd hi'n arbennig o anodd i ferched ddysgu yn y wers Affgan? Pam?
- Gofynnwch i'r bobl ifanc, yn eu grwpiau o hyd, drafod ffyrdd y gellid gwella addysg yn Affganistan. Dylent geisio ateb y tri chwestiwn canlynol:
  - Sut beth yw addysg ar hyn o bryd yn Affganistan?
  - Sut beth yr hoffech iddo fod ymhen deng mlynedd? (Byddwch yn realistig!)
    Pa bum peth y dylai'r llywodraeth a rhoddwyr rhyngwladol roi blaenoriaeth iddynt, er mwyn gwneud y gwelliannau yr hoffech eu gweld? Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â gosod blaenoriaethau, ac, os yn bosibl, nodi beth yw'r cydgysylltiad rhyngddynt.
- Os bydd amser yn caniatáu, dewch â'r grwpiau yn ôl at ei gilydd, a gofynnwch iddynt gyflwyno eu syniadau a'u hatebion i'r dosbarth.

Sesiwn lawn (5 munud)

- Dewch â'r gweithgaredd i ben gyda sesiwn lawn fer. Pwysleisiwch yr heriau a wynebir gan lywodraethau sy'n anelu at ddarparu addysg i'r holl blant yn eu gwlad. Pan fydd gwrthdaro neu argyfwng arall mewn gwlad, mae'r heriau hyn hyd yn oed yn fwy trafferthus.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Lluniau o Affganistan

Ysgol yn Jalalabad, Affganistan
Llun: Shah Bibi/ACBAR

Merched yn casglu dŵr yn slym Parwan-e-duo, Kabul
Llun: Jason P. Howe/Oxfam GB

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Plant ar y ffordd i'r ysgol, Shar-i-Buzurg.
Llun: Elissa Bogos/Oxfam GB

Ysgol a adeiladwyd yn ddiweddar, Parwan.
Llun: Louise Hancock/Oxfam GB

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841